

Sunday 7th April 2024
+ The Second Sunday of Easter

The Collect of the Day

Almighty Father, you have given your only Son to die for our sins and to rise again for our justification: grant us so to put away the leaven of malice and wickedness that we may always serve you in pureness of living and truth; through the merits of your only Son Jesus Christ our Lord, who is alive and reigns with you, in the unity of the Holy Spirit, one God, now and for ever. AMEN

The reading from Acts
(4.32-35)

The whole group of those who believed were of one heart and soul, and no one claimed private ownership of any possessions, but everything they owned was held in common. With great power the apostles gave their testimony to the resurrection of the Lord Jesus, and great grace was upon them all. There was not a needy person among them, for as many as owned lands or houses sold them and brought the proceeds of what was sold. They laid it at the apostles' feet, and it was distributed to each as any had need.

The Psalm
(133)

Behold how good and pleasant it is to dwell together in unity.

It is like the precious oil upon the head running down upon the beard,

Even on Aaron's beard running down upon the collar of his clothing.

It is like the dew of Hermon running down upon the hills of Zion. For there the Lord has promised his blessing even life for evermore.

The reading from 1 John
(1.1 – 2.2)

We declare to you what was from the beginning, what we have heard, what we have seen with our eyes, what we have looked at and touched with our hands, concerning the word of life – this life was revealed, and we have seen it and testify to it, and declare to you the eternal life that was with the Father and was revealed to us – we declare to you what we have seen and heard so that you also may have fellowship with us; and truly our fellowship is with the Father and with his Son Jesus Christ. We are writing these things so that our joy may be complete.

This is the message we have heard from him and proclaim to you, that God is light and in him there is no darkness at all. If we say that we have fellowship with him while we are walking in darkness, we lie and do not do what is true; but if we walk in the light as he himself is in the light, we have fellowship with one another, and the blood of Jesus his Son cleanses us from all sin.

If we say that we have no sin, we deceive ourselves, and the truth is not in us. If we confess our sins, he who is faithful and just will forgive us our sins and cleanse us from all unrighteous-

ness. If we say that we have not sinned, we make him a liar, and his word is not in us.

My little children, I am writing these things to you so that you may not sin. But if anyone does sin, we have an advocate with the Father, Jesus Christ the righteous; and he is the atoning sacrifice for our sins, and not for ours only but also for the sins of the whole world.

The reading from the Gospel of Christ according to Saint John
(20.19-31)

It was evening on the first day of the week, and the doors of the house where the disciples had met were locked for fear of the Jews, Jesus came and stood among them and said, 'Peace be with you.' After he said this, he showed them his hands and his side. Then the disciples rejoiced when they saw the Lord.

Jesus said to them again, 'Peace be with you. As the Father has sent me, so I send you.' When he had said this, he breathed on them and said to them, 'Receive the Holy Spirit. If you forgive the sins of any, they are forgiven them; if you retain the sins of any, they are retained.'

But Thomas (who was called the Twin), one of the twelve, was not with them when Jesus came. So the other disciples told him, 'We have seen the Lord.'

But he said to them, 'Unless I see the mark of the nails in his hands, and put my finger in the mark of the nails

and my hand in his side, I will not believe.'

A week later his disciples were again in the house, and Thomas was with them. Although the doors were shut, Jesus came and stood among them and said, 'Peace be with you.'

Then he said to Thomas, 'Put your finger here and see my hands. Reach out your hand and put it in my side. Do not doubt but believe.'

Thomas answered him, 'My Lord and my God!'

Jesus said to him, 'Have you believed because you have seen me? Blessed are those who have not seen and yet have come to believe.'

Now Jesus did many other signs in the presence of his disciples, which are not written in this book. But these are written so that you may come to believe that Jesus is the Messiah, the Son of God, and that through believing you may have life in his name.

The Prayer following Communion

Lord God our Father, through our Saviour Jesus Christ you have assured your children of eternal life and in baptism have made us one with him: deliver us from the death of sin and raise us to new life in your love, in the fellowship of the Holy Spirit, by the grace of our Lord Jesus Christ. AMEN

Dydd Sul 7^{fed} Ebrill 2024

+Ail Sul y Pasg

Colect y Dydd

Dad hollalluog, rhoddaist dy unig Fab i farw dros ein pechodau ac i gyfodi drachefn i'n cyfiawnhau: caniatâ i ni fwrw ymaith surdoes malais a drygioni er mwyn inni dy wasanaethu'n wastadol mewn purdeb bywyd a gwirionedd; trwy haeddiannau dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi, yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. AMEN

Darlleniad o Actau

(4.32-35)

Yr oedd y lliaws credinwyr o un galon ac enaid, ac ni fyddai neb yn dweud am ddim o'i feddiannau mai ei eiddo ef ei hun ydoedd, ond yr oedd ganddynt bopeth yn gyffredin. Â nerth mawr yr oedd yr apostolion yn rhoi eu tystiolaeth am atgyfodiad yr Arglwydd Iesu, a gras mawr oedd arnynt oll.

Yn wir, nid oedd neb anghenus yn eu plith, oherwydd byddai pawb oedd yn berchenogion tiroedd neu dai yn eu gwerthu, a dod â'r tâl am y pethau a werthid, a'i roi wrth draed yr apostolion; a rhennid i bawb yn ôl fel y byddai angen pob un.

Salm

(133)

Mor dda ac mor ddymunol yw i bobl fyw'n gytûn.

Y mae fel olew gwerthfawr ar y pen, yn llifo i lawr dros y farf,

dros farf Aaron, yn llifo i lawr dros goler ei wisgoedd.

Y mae fel gwllith Hermon yn disgyn i lawr ar fryniau Seion. Oherwydd yno y gorchymynnodd yr ARGLWYDD ei fendith, bywyd hyd byth.

Darlleniad o I Ioan

(1.1 – 2.2)

Yr hyn oedd o'r dechreuad, yr hyn yr ydym wedi ei glywed, yr hyn yr ydym wedi ei weld â'n llygaid, yr hyn yr edrychasom arno, ac a deimlodd ein dwylo, ynglŷn â gair y bywyd, dyna'r hyn yr ydym yn ei gyhoeddi. Amlygwyd y bywyd hwn; ac yr ydym wedi gweld, ac yr ydym yn tystiolaethu ac yn cyhoeddi i chwi y bywyd tragwyddol a oedd gyda'r Tad ac a amlygwyd i ni. Yr hyn yr ydym wedi ei weld a'i glywed, yr ydym yn ei gyhoeddi i chwi hefyd, er mwyn i chwithau gael cymundeb â ni. Ac yn wir, y mae ein cymundeb ni gyda'r Tad a chyda'i Fab ef, Iesu Grist. Ac yr ydym ni'n ysgrifennu hyn er mwyn i'n llawenydd fod yn gyflawn.

Hon yw'r genadwri yr ydym wedi ei chlywed ganddo ef, ac yr ydym yn ei chyhoeddi i chwi: goleuni yw Duw, ac nid oes ynddo ef ddim tywyllwch. Os dywedwn fod gennym gymundeb ag ef, a rhodio yn y tywyllwch, yr ydym yn dweud celwydd, ac nid ydym yn gwneud y gwirionedd; ond os rhodiwn yn y goleuni, fel y mae ef yn y goleuni, y mae gennym gymundeb â'n gilydd, ac y mae gwaed Iesu, ei Fab ef, yn ein glanhau ni o bob pechod.

Os dywedwn ein bod yn ddibechod, yr ydym yn ein twyllo ein hunain, ac nid yw'r gwirionedd ynom. Os cyffeswn ein pechodau, y mae ef yn ffyddlon ac yn gyfiawn, ac felly fe faddeua inni ein pechodau, a'n glanhau o bob anghyfiawnder. Os dywedwn nad ydym

wedi pechu, yr ydym yn ei wneud ef yn gelwyddog, ac nid yw ei air ef ynom ni.

Fy mhlant, yr wyf yn ysgrifennu'r pethau hyn atoch i'ch cadw rhag pechu. Ond os bydd i rywun bechu, y mae gennym Eiriolwr gyda'r Tad, sef Iesu Grist, y cyfiawn; ac ef sy'n aberth cymod dros ein pechodau, ac nid dros ein pechodau ni yn unig, ond hefyd bechodau'r holl fyd.

Gwrandewch Efengyl Crist

yn ôl Sant Ioan

(20.19-31)

Gyda'r nos ar y dydd cyntaf hwnnw o'r wythnos, yr oedd y drysau wedi eu cloi lle'r oedd y disgyblion, oherwydd eu bod yn ofni'r Iddewon. A dyma Iesu'n dod ac yn sefyll yn eu canol, ac yn dweud wrthynt, "Tangnefedd i chwi!" Wedi dweud hyn, dangosodd ei ddwylo a'i ystlys iddynt. Pan welsant yr Arglwydd, llawenychodd y disgyblion.

Meddai Iesu wrthynt eilwaith, "Tangnefedd i chwi! Fel y mae'r Tad wedi fy anfon i, yr wyf fi hefyd yn eich anfon chwi." Ac wedi dweud hyn, anadlodd arnynt a dweud: "Derbyniwch yr Ysbryd Glân. Os maddeuwch bechodau rhywun, y maent wedi eu maddau; os peidiwch â'u maddau, y maent heb eu maddau."

Nid oedd Thomas, a elwir Didymus, un o'r Deuddeg, gyda hwy pan ddaeth Iesu atynt. Ac felly dywedodd y disgyblion eraill wrtho, "Yr ydym wedi gweld yr Arglwydd."

Ond meddai ef wrthynt, "Os na welaf ôl yr hoelion yn ei ddwylo, a rhoi fy mys yn ôl yr hoelion, a'm llaw yn ei ystlys, ni chredaf fi byth."

Ac ymhen wythnos, yr oedd y disgyblion unwaith eto yn y tŷ, a Thomas gyda hwy. A dyma Iesu'n dod, er bod y drysau wedi eu cloi, ac yn sefyll yn y canol a dweud, "Tangnefedd i chwi!"

Yna meddai wrth Thomas, "Estyn dy fys yma. Edrych ar fy nwylo. Estyn dy law a'i rhoi yn fy ystlys. A phaid â bod yn anghredadun, bydd yn gredadun."

Atebodd Thomas ef, "Fy Arglwydd a'm Duw!"

Dywedodd Iesu wrtho, "Ai am i ti fy ngweld i yr wyt ti wedi credu? Gwyn eu byd y rhai a gredodd heb iddynt weld."

Yr oedd llawer o arwyddion eraill, yn wir, a wnaeth Iesu yng ngŵydd ei ddisgyblion, nad ydynt wedi eu cofnodi yn y llyfr hwn. Ond y mae'r rhain wedi eu cofnodi er mwyn i chwi gredu mai Iesu yw'r Meseia, Mab Duw, ac er mwyn i chwi trwy gredu gael bywyd yn ei enw ef.

Defynddir gweddi ôl- ynghyd

Arglwydd Dduw ein Tad, trwy ein Gwaredwr Iesu Grist yr wyt wedi sicrhau bywyd tragwyddol i'th blant a'n gwneud yn un ag ef mewn bedydd, gwared ni rhag marwolaeth pechod a chyfoda ni i fywyd newydd yn dy gariad, yng nghymdeithas yr Ysbryd Glân, trwy ras Iesu Grist ein Harglwydd. AMEN